

(trwy e-bost)
Ms. Tamsin Davies
Cymdeithas yr Iaith
Ystafell 5
Y Cambria
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth
SY23 2AZ

Annwyl Tamsin,


Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin at Arweinydd y Cyngor ynglŷn â'r Bil Cynllunio newydd. Mae'r Arweinydd wedi gofyn i mi ymateb ac ymddiheuraf am yr oedi wrth wneud hynny.

O ran y ddau bwynt penodol yn eich llythyr, hoffwn ymateb yn y ffordd ganlynol. Yn gyntaf, cwblhaodd y cyngor Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o broses baratoi'r CDLI a nododd bedair ardal sensitif o ran y Gymraeg yn y fwrdeistref sirol. O ganlyniad, ceir polisi yn y cynllun sy'n nodi'r ardaloedd fel Dyffryn Aman, Cwm Tawe, Pontardawe a'r Creunant. Ceir polisi hefyd sy'n gofyn am gyflwyno rhagor o Asesiadau Effaith ar y Gymraeg er mwyn ategu ceisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau canlynol yn yr ardaloedd ieithyddol sensitif hynny. Y rhain yw datblygiadau preswyl o ddeg neu fwy o dai; datblygiadau manwerthu gydag arwynebedd 1000 metr sgwâr neu fwy; a datblygiadau masnachol neu ddiwydiannol (dim trothwy arwynebedd llawr). Effaith hyn oll yw bod yr iaith eisoes yn ystyriaeth bwysig yn yr ardaloedd hynny. Os bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno arweiniad cenedlaethol ychwanegol yn y dyfodol, byddwn, wrth gwrs, yn rhoi ystyriaeth lawn iddo.

Yn ail, mae'r cyngor yn y camau olaf o baratoi'r CDLI a bydd modd archwilio'r cynllun. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn ymgynghori ar nifer o newidiadau arfaethedig sydd wedi codi oherwydd materion a nodwyd yn ystod sesiynau gwrandawriad yr archwiliad – yr 'Amserlen Newidiadau Arfaethedig Oherwydd Materion yn Codi' honedig. Daw'r ymgynghoriad i ben ganol nos ddydd Llun 10 Awst. O ystyried y sefyllfa hon a'r ffaith

nad yw ein CDLI wedi'i fabwysiadu eto, byddai braidd yn gynamserol i dybio pryd bydd yn cael ei adolygu, ond nodwyd y pwynt a wnaethoch am amserlen pedair blynedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink that reads "Steven Phillips". Below the signature is a long, horizontal, slightly wavy line.

Steven Phillips
Prif Weithredwr